

# Ysgol Gynradd Llandegfan



## *Polisi Llawysgrifen*

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017  
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017  
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

### Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

---

Pennaeth:

---

## Nod

Mae'n rhaid i blant allu ysgrifennu'n hawdd, yn gyflym ac yn eglur er mwyn mwyhau rhugledd, ansawdd a swm eu gwaith. Mae llawysgrifen redeg yn addysgu disgyblion i uno llythrennau a geiriau yn gyfres o symudiadau a phatrymau sy'n llifo. Os cysylltir ag arfer sillafu gall hefyd gynorthwyo sillafu cywir gan ei fod yn cynorthwyo plant i ddatblygu synnwyr o eiriau cyfan a llinynau llythrennau cyffredin.

## Addysgu a Dysgu

Mae arddull rhedeg yn gyflym ac yn hawdd i'w dysgu, yn arbennig pan arferir hi o oed cynnar. Bydd disgyblion yn dysgu ffurfio llythrennau unigol yn briodol ac yn gywir yn EYFS ac yna, ym Mlwyddyn 1, ddechrau uno eu llawysgrifen gan eu bod yn barod i wneud hynny.

## Amcanion

- Rydym yn amcanu i blant:
- Gyflawni arddull daclus, eglur gyda llythrennau wedi eu ffurfio'n gywir mewn llawysgrifen redeg.
- Datblygu llif a chyflymder.
- Yn y diwedd cynhyrchu'r llythrennau'n awtomatig ac yn eu hysgrifennu annibynnol.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, dilynir yr **egwyddorion** a ganlyn:

- Addysgir llawysgrifen yn rheolaidd ac yn systematig mewn dosbarthiadau, grwpiau neu'n unigol fel y bo'n briodol.
- Defnyddir patrymau i ddechrau, drwy ysgrifennu gydag amrywiaeth o offer a chan ddefnyddio dulliau amlsynhwyrol, i gynorthwyo symudiadau llaw sy'n llifo'n rhydd a datblygu cryfder cyhyrau.
- Addysgir dal pensel a ffurfio llythrennau'n gywir o'r dechrau a chysylltir llawysgrifen yn aml gyda sillafu.
- Wrth farcio neu ysgrifennu sylwadau, mae aelodau o'r staff yn defnyddio llawysgrifen redeg fel y bo'n briodol.
- Mae athrawon yn modelu ysgrifen redeg drwy ei defnyddio ar y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol a byrddau gwyn/siartiau troi ayyb.
- Mae ysgrifennu arddangos drwy'r ysgol yn cynnwys ysgrifennu rhedeg ac ysgrifennu a gynhyrchir gan gyfrifiadur.

## Darpariaeth ar gyfer plant llaw chwith

Mae plant llaw chwith bob amser yn eistedd ar ochr chwith plant llaw dde, fel nad yw eu penelinau'n taro ac yn gwrthio'i gilydd. Maent yn cael eu hannog i ddod o hyd i ogwydd cyfforddus ar gyfer eu papur, yn arferol ychydig i'r chwith o ganol eu corff, ac i gael eu bysedd oddeutu 1.5 cm o bwynt eu pensil.

## Adnoddau a Defnyddiau Ysgrifennu

Rhoddir profiad i blant o amrywiaeth o gelfi ysgrifennu. Gellir defnyddio pinnau (llawysgrifen a phinnau llenwi, nid beiros) ym mlynnyddoedd 5 a 6 gan y plant hynny sydd wedi cyflawni arddull redeg gyson. Gellir defnyddio canllawiau gyda phapur plaen. Mae'r Cydlynnydd AAA wedi darparu adnoddau ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau gyda sgiliau llawdriniol uwch – siapiau llythrennau, byrddau maged, hanbyrddau tywod ayyb.

## Y Cam Sylfaen

Yn y Cam Sylfaen mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu sgiliau llawdriniol mawr a mân ac adnabod patrymau. Addysgir ffurfio llythrennau unigol, wedi eu modelu a'u hymarfer mewn gweithio tuag at y nodau a restrir isod. Wrth iddynt wneud cynnydd, addysgir plant sut i ffurfio llythrennau bach a phrif lythrennau a sut i'w huno, wrth iddynt ddal i ddatblygu sgiliau llawdriniol mân a mawr gydag ystod o weithgareddau amlsynhwyrol. Addysgir llawysgrifen yn ddyddiol a gellir ei chysylltu â'r sesiwn ffoneg mewn sesiwn Lythrennedd. Addysgir y plant i:

- Ysgrifennu o'r chwith i'r dde ac o'r pen i'r gwaelod.
- Dechrau a gorffen llythrennau'n gywir.
- Bod yn gyson gyda maint a siâp llythrennau a gadael lle rhwng llythrennau a geiriau.
- Bod â'r gafael pensel cywir.
- Dod o hyd i le cyfleus ar gyfer eu tudalen.
- Bod â'r ystum a'r lle cywir.

## **Cyfnod Allweddol 2**

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r plant yn parhau i gael addysgu uniongyrchol ac arfer llawysgrifen yn rheolaidd.

Amcanwn iddynt ddatblygu arddull glir a rhugl ac, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, gallu addasu eu llawysgrifen ar gyfer yr amrywiol bwrpasau a ganlyn:

- Llawysgrifen daclus ac eglur ar gyfer gwaith gorffenedig a gyflwynir.
- Ysgrifen gyflymach ar gyfer nodiadau.
- Braslythrennu ar gyfer labelu mapiau neu ddiagramau.
- Defnydd graffigol o destun ar gyfer poster.

Addysgir llawysgrifen yn arferol ar sail wythnosol ond mae hynny'n dibynnu ar anghenion y dosbarth.

Mae'r atodiad sydd ynghlwm yn arddangos siapiau llythrennau a addysgir yn ein hysgol.

## **Objective**

Children must be able to write with ease, speed and legibility to maximise the fluency, quality and quantity of their work. Cursive handwriting teaches pupils to join letters and words as a series of flowing movements and patterns. If linked with spelling practice it can also aid accurate spelling as it helps children to develop a sense of whole words and common letter strings.

## **Teaching and Learning**

Cursive style is quick and easy to learn, particularly when it is practised from an early age. Pupils will learn to form individual letters appropriately and accurately in EYFS and then, in Year 1, begin to join their handwriting as they are ready to do so.

## **Aims**

- We aim for children to:
- Achieve a neat, legible style with correctly formed letters in cursive handwriting.
- Develop flow and speed.
- Eventually produce the letters automatically and in their independent writing.

In order to achieve these aims, the following **principles** are followed:

- Handwriting is taught regularly and systematically in classes, groups or individually as appropriate.
- Patterns are used initially, by writing with a variety of tools and using multisensory methods, to help free flowing hand motions and to develop muscle strength.
- Correct pencil hold and letter formation are taught from the beginning and handwriting is frequently linked with spelling.
- When marking or writing comments, members of staff use cursive handwriting as appropriate
- Teachers model cursive script by using it on IWB and whiteboards/flipcharts etc.
- Display writing throughout the school includes cursive writing and computer generated writing.

## **Provision for left handed children**

Left-handed children always sit on the left side of right-handed children, so their elbows don't bump and jog each other. They are encouraged to find a comfortable orientation for their paper, usually slightly to the left of centre of their body, and to have their fingers about 1.5 cm from the point of their pencil.

## **Resources and Writing Materials**

Children are given experience of a variety of writing tools. Pens (handwriting and fountain pens, not biros) may be used in years 5 and 6 by those children who have achieved a consistent, cursive style. Guidelines may be used with plain paper. The SENCO has provided resources for those who have difficulties with fine motor skills – letter shapes, magnet boards, sand trays etc.

## **Foundation Phase**

In the Foundation Phase children take part in activities to develop gross and fine motor skills and recognition of patterns. Individual letter formation is taught, modelled and

practised in working towards the objectives listed below. As the progress, children are taught how to form both lower case and capital letters and how to join them, whilst still developing fine and gross motor skills with a range of multi-sensory activities. Handwriting is taught daily and can be linked to the phonics session in a Literacy session. The children are taught to:

- Write from left to right and from top to bottom.
- Start and finish letters correctly.
- Be consistent with the size and shape of letters and the spacing of letters and words.
- Have the correct pencil grip.
- Find a convenient position for their page.
- Have the correct posture and position.

## **Key Stage 2**

During this stage the children continue to have direct teaching and regular practice of handwriting. We aim for them to develop a clear and fluent style and, by the end of Key Stage 2, be able to adapt their handwriting for the following different purposes:

- A neat legible hand for finished, presented work.
- A faster script for notes.
- Print for labelling maps or diagrams.
- Graphic use of text for posters.

Handwriting will usually be taught on a weekly basis but this depends on the needs of the class

The attached appendix demonstrates the letter shapes taught at our school.